**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD IAU, 4 MAWRTH 2021 DYDD IAU, 4 MAWRTH 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors J. Holt (Deputy Chair)
G. A. Davies
G. Paulsen
L. Winnett
P. Edwards
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
P. Baldwin
D. Davies
G. L. Davies
M. Day
D. Bevan
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem

T. Smith
B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Gina Taylor (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, M. Holland a H. Trollope. | |
| **No. 3** | **SALWCH**<br><br>Dywedwyd i'r Cynghorydd Haydn Trollope gael llawdriniaeth yn ddiweddar.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Cynghorydd Trollope yn dymuno adferiad buan iddo. | |
| **No. 4** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd y datganiad dilynol o fuddiant:<br><br>**Eitem Rhif 5 – Cofrestr Ffioedd a Thaliadau 2021/22 Marchnadoedd Stryd Awyr Agored – Ffioedd Thaliadau:**<br><br>Cynghorydd P. Edwards<br><br>Pe byddai Bwrdd Silent Valley Waste Services yn cael ei drafod ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, byddai'r Cynghorwyr M. Cook a B. Summers fel y cynrychiolwyr a benodwyd gan y Cyngor ar y Bwrdd yn datgan buddiant ar yr adeg honno. | |
| **No. 5** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2021/2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a gyflwynwyd i aelodau i:<br><br>• Roi diweddariad ar y setliad llywodraeth leol cadarnhaol darpariaethol ar gyfer 2021/22 ac effaith hynny ar gyllideb y Cyngor.<br><br>• Ystyried a chytuno ar y gyllideb fanwl ar gyfer 2021/2022.<br><br>• Cytuno ar lefel cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022.<br><br>Wedyn tynnwyd sylw manylach at y pwyntiau perthnasol dilynol:<br><br>**Cwmpas a Chefndir:**<br><br>• Mae Adran 2 yr adroddiad yn rhoi trosolwg o strwythur yr adroddiad ac yn tynnu sylw at y gwahanol elfennau cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>• Yn amodol ar gytuno ar yr argymhelliad o fewn yr adroddiad, bod y setliad darpariaethol cadarnhaol a gyfunwyd gyda'r cyfleoedd a ddynodwyd yn rhaglen Pontio'r Bwlch yn golygu y gallai'r Cyngor fuddsoddi mewn blaenoriaethau allweddol, osgoi toriadau i wasanaethau a hybu ei gydnerthedd ariannol. | |

**Sefyllfa Genedlaethol (Cymru gyfan)**

- Dywedodd Prif Swyddog Adnoddau na fu unrhyw newid i setliadau llywodraeth leol yn dilyn Cyhoeddiad Cyllideb Llywodraeth Cymru ar 2 Mawrth 2021 ac felly na fyddai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad yn newid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau parhad cyllid cysylltiedig â COVID a neilltuwyd o £680m, gyda'r rhan fwyaf wedi ei glustnodi ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a llywodraeth leol. Mae'r wybodaeth a roddwyd yn dangos y cafodd £200m ei neilltuo ar gyfer costau cysylltiedig â COVID ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer y cyfnod Ebrill – Medi 2021. Felly, mae'r tybiaethau a wnaed am gyllid cysylltiedig â COVID yn dal i sefyll.

- Y prif bennawd cyffredinol yn y Cyllid Allanol Cyfun a nodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd 3.8%, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r setliad. O gymharu gyda chyfartaledd Cymru, roedd y cynnydd o 3.7% ar gyfer Blaenau Gwent yn rhoi'r awdurdod yn nhraean isaf tabl Cymru.

- Bu dau drosglwyddiad i'r setliad fel sy'n dilyn:

  - £3.98m ar gyfer y grant cyflogau athrawon
  - £1.1m ar gyfer y Rhaglen Rheolaeth Risg Arfordirol (dim effaith ar gyfer y Cyngor hwn).

- Dim ond ar sail Cymru-gyfan y cyhoeddwyd rhai grantiau refeniw penodol, yn gyfanswm o £968m, felly nid yw effaith lawn hyn ar Flaenau Gwent yn hysbys hyd yma.

- Ac eithrio'r GIG ac ar gyfer y rhai ar y tâl isaf, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal cynnydd tâl sector cyhoeddus wedi golygu nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid penodol i ddarparu ar gyfer dyfarniadau ehangach cyflog sector cyhoeddus. Fel canlyniad, byddai angen i unrhyw effaith neilltuol yn deillio o gynnydd/dyfarniadau cyflog gael eu cynnwys o fewn y setliad cyllid cyffredinol.

Ymunodd y Cynghorydd T. Sharrem â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

**Sefyllfa Blaenau Gwent**

- Y cynnydd pennawd ar gyfer CBSBG ar ôl caniatáu ar gyfer trosglwyddo oedd 3.6% (£4.2m), o gymharu gyda chynnydd Cymru gyfan o 3.8%. Byddai hyn yn rhoi Blaenau Gwent yn nhraean isaf tabl cynghrair Cymru-gyfan.

- Mae manylion yr Asesiad Gwariant Safonol (SSA) – y fformiwla y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio yn seiliedig ar ddosbarthiad cyllid – ar gael ym mharagraffau 2.22 – 2.24 yr adroddiad.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i fod y derbynnydd uchaf o Gyllid Allanol Cyfun ar sail fesul pen.

- Nodwyd fod cyllid cyfalaf cyffredinol wedi gostwng ychydig gan £54,000 o 2020/2021 i £3.8m. Disgwylid y byddai dyraniad Blaenau Gwent o grant adnewyddu priffyrdd cyhoeddus tua £370,000.

**Tabl 1 – Bwlch cyllido Strategaeth Ariannol Tymor Canol (fel ym mis Rhagfyr 2020)**

Mae'r ffigurau a gynhwysir yn Nhabl 1 yr adroddiad yn seiliedig ar nifer o dybiaethau yn cynnwys:

- Lefel arian gwastad o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Cynnydd o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor.
- Byddai pwysau cost yn deillio fel ymateb uniongyrchol i COVID-19 yn parhau i gael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.
- Cyfraniad i'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol o £200,000.

**Pwysau Cost Gwasanaeth ac Eitemau Twf**

- ➢ Roedd y cynnydd heb ei addasu yn y setliad o £4.3m (3.7%) ar gyfer 2021/2022 ar gyfer Blaenau Gwent yn well na'r sefyllfa a fodelwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Fel canlyniad, gellir yn awr ddiwygio'r bwlch cyllid gwreiddiol..

- ➢ Cafodd pwysau cost gwasanaeth newydd ac eitemau twf yn gyfanswm o £2.819m ar gyfer 2021/2022 eu cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r bwlch cyllid a

ddynodwyd yn nhabl 1 yr adroddiad. Tybiwyd £1m y flwyddyn ar gyfer 2022/2023 ymlaen.

- Yn ychwanegol at y pwysau cost a ddynodwyd yn Atodiad 3, cafodd pwysau cost eu dynodi yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19. Ar hyn o bryd amcangyfrifir fod y rhain tua £445,000 y mis ac maent yn adlewyrchu costau ychwanegol a gafwyd ac incwm a gollwyd. Tybiwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido'r costau hyn i'r flwyddyn ariannol nesaf gan y cafodd cyllid ei neilltuo fel rhan o gyhoeddiad y Gyllideb.

- Cynigiwyd y dylid cytuno ar y pwysau cost diwygiedig ac eitemau twf yn gyfanswm o £2,074m a'u hadeiladu i gyllideb y Cyngor o 2021/22.

**Cyllideb Ysgolion Unigol (ISB)**

- Gan y byddai'r Cyngor yn derbyn ymgodiad o 3.6% (ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddo grant i'r dyfarniad tâl Athrawon), cynigiwyd hefyd i gynyddu'r ISB gan 3.6%. Byddai'r effaith ariannol yn cynyddu'r ISB gan £1.472m ar ôl rhoi ystyriaeth i ostyngiad mewn demograffeg disgyblion o £150,000 (cynnydd net o 3.3%). Byddai'r cynnydd yn cynnwys trosglwyddo'r grant dyfarniad cyflog i'r setliad o £84,000.

- Mae Tabl 2 yn rhoi manylion yr effaith ariannol ar y bwlch cyllid pe cymeradwyid y pwysau cost a thwf o £2.074m a'r cynnydd yn yr ISB o £1.472m. Nodwyd y byddai'r pwysau cost a'r eitemau twf yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd. Ar gyfer 2021/22 byddai hyn yn arwain at warged cyllid o £584,000 a byddai'n rhagweld diffygion ar gyfer 4 blynedd dilynol.

**Adolygiadau Strategol Pontio'r Bwlch**

- Mae Tabl 4 yn rhoi crynodeb o amcangyfrif cyflawniad yr Adolygiadau Busnes Strategol, gyda manylion yr adolygiadau strategol unigol yn Atodiad 4.

- Ar gyfer 2021/22 roedd yr amcangyfrif diweddaraf ar Pontio'r Bwlch yn dangos y byddai'r cyflawniad yn rhagori ar yr amcangyfrif isel ac yn cyrraedd £755,000. Pan gynhwyswyd y cyflawniad ar gyfer Pontio'r Bwlch ar gyfer 2021/2022,

roedd gwarged cyllideb o £1.3m.

**Trosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

- Cynigiwyd fod cyflawniad Pontio'r Bwlch oedd yn uwch na gofyniad y gyllideb, o £1.3m, yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn arbennig ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth Ariannol Tymor Canol – cafodd cynnig tebyg ei gytuno gan y Cyngor y flwyddyn flaenorol.

**Risg yn cynnwys camau gweithredu i liniaru**

- Nodwyd fod gweddill yr adroddiad yn rhoi sylw i rai o'r risgiau yn gysylltiedig gyda'r gyllideb a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, yn neilltuol pe na chyflwynid deilliannau hynny yn ôl y disgwyl ac yn rhoi gwybodaeth am Gronfa Cyllideb 2020/21 a sefyllfa hanner blwyddyn y Cronfeydd Refeniw wrth gefn Cyffredinol 2020/202.

**Ymgyfraniad (Ymgynghori, Ymgysylltu, Cyfranogi)**

- Fel rhan o'r broses cyllideb, ymgysylltwyd gyda phreswylwyr Blaenau Gwent. Derbyniwyd 194 ymateb i'r ymgynghoriad ac roedd yr ymatebwyr hynny wedi dynodi ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol plant a seilwaith (trafnidiaeth a phriffyrdd) fel eu prif dair blaenoriaeth.

- Cytunodd 57% o'r ymatebwyr y dylai ysgolion dderbyn ymgodiad i'w cyllidebau fel yr argymhellir ac roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr wedi dweud fod y cynnydd o 4% a a gynigir i'r dreth gyngor naill ai'n annerbyniol neu'n hollol annerbyniol.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy gofnodi ei werthfawrogiad i'r Prif Swyddog Adnoddau a'r holl Dîm Adnoddau am eu gwaith gwych drwy gydol y flwyddyn ac yn neilltuol y dasg galed o broses paratoi'r gyllideb. Mynegwyd diolch hefyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'i thîm oedd wedi gweithio wrth ochr swyddogion Adnoddau ac a fu ganddynt hefyd rôl sylweddol wrth osod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gryfach a mwy sefydlog. Hefyd, nododd yr Arweinydd ei werthfawrogiad a'i gydnabyddiaeth i Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol cadarnhaol a dderbyniodd llywodraeth leol eto eleni, sydd wedi ei gwneud yn bosibl paratoi cyllideb gytbwys ac

| | | |
|---|---|---|
| | mae hyn wedi rhoi mwy o gyfle i gryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ganolbwyntio ar Gyllideb Refeniw 2021/2022 a dywedodd y byddai'n cynnig cymeradwyo 3.1.1 – 3.1.6 yn eu cyfanrwydd ar yr amser priodol ac wrth wneud hynny dymunai ailadrodd sylwadau'r Prif Swyddog Adnoddau am y sefyllfa ariannol gadarnhaol a chyfeiriodd at yr ymgodiad sylweddol i'r ISB, y rhoddir y manylion ym mharagraff 3.15 yr adroddiad, a dywedodd y cafodd y cynnydd hwn ei groesawu ar draws y stad ysgolion.<br><br>Yn nhermau paragraff 3.1.7 yr adroddiad a'r cynnydd yn y dreth gyngor, cynigid dewis heblaw tybiaeth y Strategaeth Ariannol Tymor Canol o 4% h.y. cynnydd treth gyngor o 3.3% ar gyfer 2021/2022. Pe cytunid ar y cynnig, byddai'n golygu y byddai angen gwneud rhai addasiadau i bapurau'r gyllideb fel y'u cyflwynwyd, sef byddai'r gwarged cyllid yn Nhabl 2 yn gostwng i £300,000 ac yn yr un modd wrth roi ystyriaeth i gyflawniadau Pontio'r Bwlch, sydd yn ddi-os yn adeiladu nerth ariannol y sefydliad i raddau helaeth, byddai ffigur y gwarged cyllid derbyniol yn newid i £1,055,000. Os cytunir, argymhellid trosglwyddo swm o £1,055,000 i gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i gefnogi'r cynllunio ariannol, yn neilltuol yn Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn y dyfodol.<br><br>Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud pe dilynid y llwybr gweithredu hwn y credai bod y sefyllfa hirdymor o hyn ymlaen yn golygu dim toriadau i wasanaethau, byddai cyfle i fuddsoddi lle'n briodol o fewn blaenoriaethau allweddol a newydd a all fod gan y Cyngor ac yn hollbwysig, byddai cydnerthedd ariannol y Cyngor yn cael ei gryfhau'n sylweddol a byddai'n galluogi heriau'r dyfodol gyda pheth hyder. Daeth i ben drwy ddweud y byddai'n cynnig y diwygiadau i'r adroddiad yn ffurfiol unwaith y daeth y drafodaeth i ben.<br><br>Adleisiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y sylwadau a wnaed yng nghyswllt y Prif Swyddog Adnoddau a'i thîm a dywedodd y byddai'n hoffi diolch yn bersonol i'r Prif Swyddog ac eraill am fynychu cyfarfodydd y Cyd-grŵp. Aeth ymlaen drwy ddweud y byddai hefyd yn cynnig argymhelliad arall ar yr adeg addas, a fyddai'n cael ei eilio gan Aelod y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol. Nododd y sylwadau a wnaed am setliad Llywodraeth Cymru, a gredai oedd yn hael iawn ac y byddai'n trosglwyddo'r sylwadau | |

hynny pan fyddai'n cwrdd â Gweinidog Llafur Llywodraeth Leol y noswaith honno.

Fe wnaeth Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol hefyd adleisio'r sylwadau a wnaed am y Prif Swyddog Adnoddau a'i thîm am eu gwaith ardderchog. Aeth ymlaen drwy ddweud ei bod yn ddymunol clywed y cynigir cynnydd treth gyngor is o 3.3% yn lle'r hyn a gyhoeddwyd yn wreiddiol ond teimlai nad oedd y weinyddiaeth wedi deall y problemau a brofir yn y gymuned gyda COVID-19, diweithdra a phobl ar gyfnod ffyrlo, a theimlai nad oedd hyn yn mynd yn ddigon pell.

Gofynnwyd am farn Aelodau a chaiff y pryderon/sylwadau hyn eu crynhoi islaw:

- Mynegwyd pryder y byddai'r Cyngor, yng nghanol pandemig, yn cymryd mwy o arian allan o bocedi pobl. Rhoddodd yr Aelodau enghreifftiau neilltuol yn ei ward lle mae preswylwyr mewn anawsterau ariannol a dywedodd ei bod yn anfoesol a'i fod yn anghytuno'n llwyr gyda chynyddu'r dreth gyngor yn uwch na lefel chwyddiant.

- Dim ond 80% o'u cyflog mae preswylwyr ar gyfnod ffyrlo yn ei dderbyn, ond disgwylir iddynt ddal i dalu eu biliau. Roedd Blaenau Gwent yn ardal amddifadus ac mae preswylwyr eisoes yn talu mwy o dreth gyngor nag mewn rhai awdurdodau lleol erailil. Ni fedrai'r Aelod felly gefnogi cynnydd o 3.3% yn y dreth gyngor.

- Dymunai Aelod gofnodi ei gefnogaeth ar gyfer ei gyd-aelod ward a siaradodd yn gynharach – roedd preswylwyr yn y ward wedi cysylltu ag ef yn mynegi eu pryderon. Er bod y Cyngor wedi derbyn setliad cadarnhaol ac y byddai'n bennu lan gyda chyllid gwarged, roedd biliau wedi parhau i gynyddu yn ystod y pandemig a dywedodd bod unrhyw gynnydd uwchben graddfa chwyddiant yn annerbyniol. Roedd llawer wedi gweld cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd dros y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd y dylai'r Cyngor geisio helpu'r cymunedau lle bynnag yr oedd modd. Daeth i ben drwy ddweud fod cynnydd o 3.3% yn annerbyniol.

- Roedd cynifer o bobl ar gyfnod ffyrlo ac mewn anawsterau ariannol go iawn oherwydd y pandemig. Mae costau cyfleustodau yn codi ac mae rhai wedi wynebu treuliau a

chostau ariannol ychwanegol oherwydd y bu angen iddynt brynu neu ddiweddaru offer technoleg gwybodaeth plant ar gyfer plant yn cael addysg gartref. Nid oedd cynnydd o 3.3% yn deg yn neilltuol pan oedd y Cyngor wedi derbyn setliad annisgwyl o gadarnhaol

Aeth yr Aelod ymlaen drwy gyfeirio at y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021 a chyfeiriodd at y £600,000 ychwanegol a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn, na chafodd ei adlewyrchu o fewn gwaith papur y gyllideb a dywedodd y byddai'r cyllid ychwanegol hwn ynghyd â setliad cadarnhaol yn cynyddu lefel y gwarged ymhellach.

Cydnabu'r Prif Swyddog Adnoddau na chafodd y cynnydd o £600,000 mewn cronfeydd wrth gefn fel ar 31 Mawrth 2020 ei ddangos yn y papurau o flaen Aelodau ac esboniodd fod hyn oherwydd adeg paratoi'r adroddiad nad oedd yr archwiliad o gyfrifon 2019/2020 wedi ei gwblhau ac felly ni werthfawrogwyd effaith lawn yr addasiadau sy'n rhaid eu gwneud. Fodd bynnag, caiff yr wybodaeth yma ei hadlewyrchu yn adroddiadau i Aelodau o hyn ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelod at y £600,000 gan gydnabod y gallai hyn helpu'r Cyngor o hyn ymlaen ond dywedodd y gellid defnyddio'r cyllid hwn i arbed preswylwyr rhag effaith cynnydd 3.3% a bod angen ystyried yr wybodaeth yma wrth wneud unrhyw benderfyniad.

- Roedd llawer o bobl wedi dioddef yn ariannol drwy gydol y pandemig a rhai hyd yn oed wedi colli eu cartrefi. Dylai'r Cyngor roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau preswylwyr a dylai ostwng y cynnydd i ddangos cynnydd chwyddiant yn unig.

- Yn ystod y cyfnod digynsail yma roedd y Cyngor yn disgwyl i breswylwyr oedd eisoes yn cael trafferthion ariannol i ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn. Roedd 3.3% yn gynnydd annerbyniol – roedd cronfeydd wrth gefn i fod i gael eu defnyddio ar ddiwrnod glawog ac roedd n tywallt y glaw ar hyn o bryd.

- Roedd y Cyngor wedi derbyn setliad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ac roedd hyn wedi gwneud gwaith swyddogion gymaint â hynny yn rhwyddach i cael cyfrifon

cytbwys. Roedd Blaenau Gwent yn ardal ddrutach i fyw ynddi nag ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Roedd preswylwyr yn haeddu cael eu cefnogi. Roedd COVID wedi eu taro'n galed ac roedd yn afresymol cynyddu'r dreth gyngor ar ben y problemau presennol a wynebir. Dywedodd yr Aelod na fedrai gefnogi cynnydd o 3.3%.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru y byddid yn derbyn £740m ychwanegol a ph'un ai a ddyrennir cyllid pellach i awdurdodau lleol, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai cyllid canlyniadol pellach yn dod i Gymru yn dilyn cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ond y byddai wedyn yn fater i Lywodraeth Cymru ddyrannu'r cyllid hwnnw yn unol â blaenoriaethau. Er y tybid y byddid yn derbyn cyllid ychwanegol, ni fedrai'r Prif Swyddog ddweud ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr wybodaeth a dderbyniwyd ar gyfer pa feysydd penodol y byddid yn defnyddio'r cyllid hwn.

- Roedd hwn yn gyfnod na welwyd ei debyg ac adeg gosod y gyllideb y flwyddyn flaenorol ni fedrai neb fod wedi gwybod am yr anawsterau ariannol fyddai preswylwyr yn eu hwynebu drwy golli swyddi neu fusnesau neu fod ar ffyrlo am flwyddyn. Mynegwyd pryder y gofynnid i breswylwyr dalu mwy o dreth gyngor hyd yn oed fod rhai dim ond ceisio cael dau ben llinyn ynghyd ac yn byw ar fudd-daliadau o £74 yr wythnos. Daeth yr Aelod i ben drwy ddweud na fedrai byth gefnogi cynnydd o 3.3%.

Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud ei bod yn cynhesu'r galon i glywed sylwadau Aelodau oedd yn caru eu cymunedau a dywedodd iddi fod yn flwyddyn anodd. Roedd sylfaen treth gyngor Blaenau Gwent bunt am bunt y drutaf yng Nghymru. Er y gorfodwyd lefelau teth gyngor uwch y flwyddyn flaenorol oherwydd llymder, eleni cafodd y Cyngor gyfle i roi lliniaru i breswylwyr a dywedodd y dylai Aelodau gymryd y cyfle hwnnw. Aeth ymlaen drwy ddweud y byddai'r Cyngor yn derbyn cyllid ychwanegol, h.y. y £600,000 a grybwyllwyd a dywedwyd wrtho fod y rhan fwyaf o'r Gyllideb Trawsnewid yn dal i fod ar gael – nodwyd fod y gronfa hon yn arfer bod yn rhan o'r gyllideb tan 2 flynedd yn ôl.

Wedyn, cynigiodd Aelod y Grŵp Llafur y diwygiadau dilynol:

- **Dylid ychwanegu'r gwarged cyllid a ddynodwyd yn yr**

**adroddiad yn gyfanswm o £1,303,000 i'r swm gweddilliol o £446,000 o fewn y Gronfa Drawsnewidiol i roi cyfanswm gwarged o £1,749,000.**

- **Gostwng y Dreth Gyngor i 0.7% yn unol â'r gyfradd chwyddiant bresennol, a fyddai'n costio cyfanswm o £1,168,200.**

- **Neilltuo £300,000 (i'w ychwanegu at y £80,000 a gynhwysir eisoes yn y gyllideb) i wella gwasanaeth CCTV y Cyngor gyda chymorth gan yr heddlu.**

- **Byddai'r uchod yn gyfanswm o £1,468,200.**

- **Ychwanegu'r gwarged terfynol o £280,800 at y gronfa gadw o £600,000 a ddynodwyd yn y Pwyllgor Archwilio ar 2 Mawrth 2021. Byddai'r gwarged terfynol hwn yn gyfanswm o £880,800.**

- **Neilltuo'r £880,800 i lacio pwysau cost Darpariaeth Isafswm Refeniw o £1.8m yn 2022/2023.**

Eiliwyd y cynnig diwygiedig uchod.

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei werthfawrogiad i Aelodau am eu cyfraniadau a phwysleisiodd nad oedd neb yn tanseilio nac yn amharchu'r effaith a gafodd COVID ar y fwrdeistref, bwrdeistrefi cyfagos a ledled Cymru. Cyfeiriodd at y sylwadau a wnaed parthed derbyn 'arian ar hap' a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd nad oedd hyn yn 'arian ar hap' mewn llawer o ffyrdd, fel gyda setliad y llynedd roedd parch newydd a pherthynas weithio well rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru a theimlai y dylai hyn gael ei ddangos yn y setliadau.

Yng nghyswllt lefel y dreth gyngor, er y byddai'n wleidyddol ddarbodus i gadw lefelau treth cyngor yn isel – nid yw Blaenau Gwent yn wahanol i awdurdodau eraill – mae awdurdodau eraill yn wynebu problemau tebyg ond nid oes unrhyw awdurdod arall yn mynd i'r graddau a gynigiwyd h.y. 0.7%. Dim ond 5 awdurdod sy'n cynnig cynnydd dan 3% ac mae'r 17 awdurdod arall yn cynnig cynnydd oddeutu 3% a Blaenau Gwent oedd yr isaf yn y categori hwn. Er fod ganddo gydymdeimlad gyda'r sylwadau a wnaed, nid dim ond am un flwyddyn y gosodir cyllideb, caiff cyllideb ei gosod gyda goblygiadau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Cafodd ei

| | | |
|---|---|---|
| | feirniadu ym mis Rhagfyr am beidio lliniaru'r effaith bosibl a fyddai gan golli'r Polisi Isafswm Refeniw (MRP) ac y byddai'r weinyddiaeth nesaf ar ôl 2022 yn cael ei rhoi mewn sefyllfa anodd gyda defnyddio cronfeydd wrth gefn. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd hyn yn wir, sefydlwyd cronfa wrth gefn cydnerthedd ariannol a chynigir ychwanegu gwarged cyllid eleni at hynny eto eleni, ac roedd yr un mor hyderus y byddai camau gweithredu drwy Pontio'r Bwlch hefyd yn lliniaru'r MRP. Fodd bynnag, atgoffodd yr Aelodau pe na fyddid wedi gweithredu'r polisi hwnnw, y byddai'r Cyngor wedi gorfod dynodi o leiaf £15m o doriadau ychwanegol i'r gyllideb dros y cyfnod hwnnw.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod lefel y dreth gyngor a gynigir yn bragmataidd. Yng nghyswllt defnydd cronfeydd wrth gefn, roedd Blaenau Gwent yr ail isaf yng Nghymru am y lefel a gedwir felly mae hefyd gyfrifoldeb hirdymor i fynd i'r afael â hyn. Daeth i ben drwy ddweud ei fod yn fwy na bodlon esbonio i'r cyhoedd y rhesymeg am gynyddu'r dreth gyngor gan 3.3% ac yn wir am gronni a chynyddu'r cronfeydd wrth gefn a fyddai'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur iddo wneud y sylwadau am y MRP yn ôl ym mis Rhagfyr pan yr oedd yn dal i fod â phryderon difrifol amdano ac roedd hefyd yn y cyfarfod hwnnw wedi trafod y Cydbwyllgorau Ymgynghorol a bregusrwydd y Cyngor oedd wedi gwneud y newid i'r MRP i gynnal y Cyngor. Nodwyd na chaniateir mwyach i ôl-ddyddio newidiadau i bolisïau MRP.<br><br>Aeth ymlaen drwy ddweud fod ei Grŵp wedi etifeddu amgylchiadau anodd yn ôl yn 2012 ond bod y blaid wedi cytuno cynnal lefelau treth gyngor mor isel ag sydd modd – yn 2016 yng nghanol llymder, dim ond gan 2.6% y cynyddwyd y dreth gyngor. Fodd bynnag, heddiw, mae opsiwn naill ai i atodi'r cronfeydd wrth gefn neu gefnogi'r preswylwyr sy'n dioddef yn ariannol ar hyn o bryd gyda chynnydd o 0.7% yn unol â chwyddiant.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod angen ystyried effaith sylfaen treth gyngor isel iawn ar gyfer y dyfodol a phe byddai'r Cyngor mewn sefyllfa o gydnerthedd ariannol, byddai hyn yn helpu i addasu'r dreth gyngor a'i chadw ar lefelau call. Gwelwyd defnydd trwm o gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn y cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur ati a bu cynnydd o 3.6% a 3.5% yn eu tro yn y dreth gyngor yn y blynyddoedd dilynol. Byddai'r cynnig yn galluogi'r Cyngor i ddiogelu'r gwasanaethau rheng flaen ar gyfer y cyhoedd | |

yn y dyfodol.

Gwnaeth Arweinydd y Grŵp Llafur y pwynt y cafodd cyllid ei roi mewn cronfeydd cadw yn ystod blynyddoedd o gyllid llymder ac y bu cynnydd uchel iawn yn lefel y dreth gyngor ar ddechrau'r 2000au a daeth i ben drwy ddweud fod Blaenau Gwent bunt am bunt yn ddrutach nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall.

Gadawodd y Cynghorydd W. Hodgins y cyfarfod cyn cymryd y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth faith cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y **diwygiad dilynol i'r opsiwn a ffafrir.**

**Cynnig Diwygiedig:**

- **Cymeradwyo paragraffau 3.1.1 – 3.1.5 (cynhwysol).**

- **Ychwanegu'r gwarged cyllid a ddynodwyd yn yr adroddiad yn gyfanswm o £1,303,000 at y swm gweddilliol o £446,000 o fewn y Gronfa Trawsnewid i roi cyfanswm gwarged o £1,749.000.**

- **Gostwng y Dreth Gyngor i 0.7% yn unol â'r gyfradd chwyddiant bresennol, a fyddai'n costio cyfanswm o £1,168,200.**

- **Ychwanegu £300,000 at yr £80,000 sydd eisoes yn y gyllideb i wella gwasanaeth CCTV y Cyngor.**

- **Cyfanswm yr uchod oedd £1,468,200.**

- **Ychwanegu'r gwarged terfynol o £280,000 at y gronfa wrth gefn o £600,000 a ddynodwyd yn y Pwyllgor Archwilio ar 2 Mawrth 2021. Byddai'r gwarged terfynol yn cyfanswm o £880,000.**

- **Neilltuo'r £880,000 i lacio pwysau cost MRP o £1.8m yn 2022/2023.**

**Eiliwyd y cynnig diwygiedig.**

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**O blaid y diwygiad –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

**Yn erbyn y diwygiad** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.

**Ni chariwyd y bleidlais ar y diwygiad.**

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor **gymeradwyo Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) ac eithriad 3.1.7, y dylid ei ddiwygio i ddarllen cynnydd Treth Gyngor o 3.3%.**

**Byddai hyn yn arwain at warged o £1,055,000 ac fel y cytunwyd caiff ei drosglwyddo i'r Gronfa wrth Gefn Cydnerthedd Ariannol i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.**

**Eiliwyd y cynnig hwn.**

Felly, gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**O blaid** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.

**Yn erbyn -** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

**Cafodd y bleidlais yng nghyswllt Opsiwn 1 a chynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 3.3% ei chario.**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:

| | | |
|---|---|---|
| | • Paragraff 3.1.1 – Cytuno ar gyllideb refeniw 2021/20222 fel y'i dangosir yn y paragraff yn nhabl 2, paragraff 5.1.14 yr adroddiad.<br><br>• Paragraff 3.1.2 – Nodi'r deilliannau o fewn setliad darpariaethol Grant Cynnal Refeniw CBSBG a'r newid pellach posibl yn y Grant Cynnal Refeniw Terfynol.<br><br>• Paragraff 3.1.3 – Nodi'r deilliannau o fewn setliad Grant Cynnal Refeniw darpariaethol CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>• Paragraff 3.1.4 – Cytuno ar y pwysau cost a'r eitemau twf a ddiweddarwyd (cyfanswm o £2.074m) a ddynodir yn Atodiad 3 yr adroddiad i'w cynnwys yng nghyllideb y Cyngor.<br><br>• Paragraff 3.1.5 – Cytuno ar ymgodiad o £1.472m, sy'n gyfartal â chynnydd net o 3.3% i'r Gyllideb Ysgolion Unigol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd crynswth o 3.6% (sy'n cynnwys grant cyflogau Athrawon yn trosglwyddo i'r setliad o £84,000) wedi ei addasu ar gyfer gostyngiad o £150,000 mewn demograffeg.<br><br>• Paragraff 3.1.6 – Bod unrhyw beth a gyflawnid yng nghynigion Pontio'r Bwlch sy'n uwch na'r gofyniad cyllideb yn y flwyddyn yn cael ei drosglwyddo i gronfa wedi ei chlustnodi i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>• Paragraff 3.1.7 – Cymeradwyo cynnydd Treth Gyngor o 3.3% ar gyfer 2021/2022. | |
| **No. 6** | **<u>FFIOEDD A CHOSTAU CORFFORAETHOL 2021/2022</u>**<br><br>Gadawodd y Cynghorydd T. Smith y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Datganodd y Cynghorydd P. Edwards fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod tra'i bod yn cael ei thrafod.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth | |

Cyfrifeg yn fanwl am yr adroddiad sy'n cynnig y ffioedd a chostau i'w gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, yn cynnwys y ffioedd a thaliadau creiddiol a weithredir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

Nodwyd fod rhaglen Pontio'r Bwlch yn cynnwys adolygiad busnes strategol ar ffioedd a thaliadau i sicrhau fod y Cyngor yn uchafu ei incwm drwy sicrhau fod ffioedd a thaliadau yn cael eu gosod ar lefel sy'n talu am gostau darparu'r nwyddau a gwasanaethau y mae'n eu darparu lle'n briodol.

Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar y ffioedd a chostau a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol oherwydd e.e. cau gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i liniaru colled incwm ar gyfer 2020/2021 a rhagwelid y byddai'r cyllid yn parhau i 2021/2022 wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i'r pandemig.

Aeth y Rheolwr Gwasanaeth ymlaen drwy amlinellu'r ffioedd a chostau y byddai cynnydd o 2% arnynt fel yr amlinellir ym mharagraff 5.1.2 ynghyd â rhestr o'r gwasanaethau lle na chynigir cynnydd ffioedd.

Roedd Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin wedi cyflwyno rhestr o ffioedd a thaliadau a gynigir ar gyfer 2021/2022 ar gyfer gwasanaethau creiddiol, i'w chymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r cytundeb Cyllid a Rheoli. Mae'r cynnydd a gynigir yn amrywio o ddim cynnydd ffioedd i 3.2%.

Nodwyd fod ffioedd a thaliadau yn cynhyrchu tua £14.8m y flwyddyn mewn incwm ac yn cyfrannu tuag at gyllido cost darparu gwasanaethau'r Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, yng ngoleuni'r bleidlais a gymerwyd i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 3.3% ar gyfer 2021/22 ac er mwyn rhoi peth cymorth i breswylwyr, gofynnodd os byddai'n bosibl gostwng rhai o'r cynnydd o 2% mewn ffioedd a chostau.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod nifer o'r cynnydd a 2% o gynigid eisoes wedi eu dileu (roedd hyn yn cynnwys mynwentydd, pryd ar glud, marchnadoedd a gwastraff masnach) a byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus am yr effaith y byddai dileu unrhyw gynnydd pellach yn ei gael ar gyllidebau rhai adrannau, tebyg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er y credai y cafodd dileu'r ymgodiadau ei ostwng cyn belled ag oedd yn bosibl, cynhelir trafodaethau pellach gyda deiliaid cyllideb perthnasol ac

| | | |
|---|---|---|
| | fel canlyniad i'r trafodaethau hyn roedd angen adolygu unrhyw rai o'r ffioedd a chostau, byddid yn cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod o'r Cyngor eu hystyried yn y dyfodol.<br><br>Ar ran masnachwyr y fwrdeistref mynegodd Aelod ei werthfawrogiad na chynigiwyd unrhyw gynnydd ar gyfer marchnadoedd a gwasanaethau gwastraff masnach, a dywedodd fod hyn yn ymagwedd synhwyrol.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r gofrestr o Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2021/2022 ynghyd â'r cynnydd prisiau creiddiol yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. | |
| **No. 7** | **<u>CYNNIG – YMCHWYDD £20</u>**<br><br>Ystyriodd y Cyngor y cynnig gan Unite Cymru i gynnal incwm teuluoedd incwm isel a chanol.<br><br>Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei werthfawrogiad i'r Cyngor am ystyried y cynnig ar ran Unite Cymru. Aeth ymlaen drwy ddweud er y cytunwyd fel rhan o gyhoeddiad cyllideb y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth 2021 i ymestyn cyfradd sylfaenol y cynnydd mewn Credyd Cynhwysol gan 6 mis, roedd Unite Cymru wedi gofyn i'r Cyngor ddal i ystyried y Cynnig.<br><br>Mewn pleidlais PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cyngor yn nodi:<br><br>• Yn dilyn cyhoeddiad yn y Gyllideb ar 3 Mawrth 2021 fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Medi yn bwriadu torri lefel budd-daliadau miliynau o hawlwyr drwy ddod â'r cynnydd cyfnod cyfyngedig i gyfradd sylfaenol Credyd Cynhwysol (a'r credyd treth cyfatebol) i ben.<br><br>• Mae'r hwb o £20 yr wythnos yn adlewyrchu'r realaeth nad oedd lefel budd-daliadau yn ddigonol i ddiogelu'r cynnydd cyflym yn y nifer o aelwydydd sy'n dibynnu arnynt wrth i argyfwng y pandemig daro. Mae'r cynnydd yn sylweddol iawn ac yn symudiad a groesawyd i hybu safonau byw teuluoedd incwm isel ac incwm canolig a byddai ei golli yn golled enfawr. | |

- Byddai symud ymlaen yn gweld lefel y cymorth diweithdra yn disgyn i'w lefel termau gwirioneddol isaf ers 1990-91, a'i ganran isaf erioed o gymharu ag enillion cyfartalog.

- Cafodd y cynnydd mewn budd-daliadau effaith gadarnhaol ar fywydau miloedd o hawlwyr lleol sydd wedi bod mewn gwell sefyllfa l i dalu am hanfodion bywyd fel bwyd, dillad a chyfleustodau.

- Mae'r economi lleol hefyd wedi manteisio o'r cynnydd mewn lefelau budd-daliadau gan fod hawlwyr yn gwario eu harian yn lleol a thrwy hynny yn cefnogi busnesau a swyddi lleol.

- Ni fu unrhyw gynnydd mewn lwfansau gofalwyr gyda llawer o ofalwyr di-dâl yn wynebu caledi ariannol difrifol.

PENDERFYNWYD YMHELLACH bod y Cyngor yn:

- Ysgrifennu at y Canghellor Rishi Sunak ac at y Prif Weinidog Boris Johnson yn mynnu bod y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol yn cael ei wneud yn barhaol a'i ymestyn i hawlwyr ar fudd-daliadau gwaddol.

- Gweithio gyda sefydliadau llywodraeth leol eraill i ffurfio cynghrair i bwyso'r llywodraeth i wneud y cynnydd o £20 i'r Credyd Cynhwysol yn barhaol.

- Ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau, yn eu hannog i gynyddu lwfans gofalwyr gan £20 yr wythnos ar unwaith, yn unol â'r cynnydd mewn Credyd Cynhwysol, gan anfon copi at yr Aelod Seneddol lleol yn gofyn am ei gefnogaeth.

- Hyrwyddo Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc ar 16 Mawrth 2021 mor eang ag sydd modd yn flynyddol, yn neilltuol i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd.